

Gwybodaeth i Rieni

Mai 26ain 2022

Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd

Bydd Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd i ddisgyblion o'r Dosbarthiadau Derbyn hyd Flwyddyn 6 Ddydd Gwener 27ain o Fai. **Bydd Blagur Haf, y Cylch Chwarae a'r Feithrinfa ar agor fel arfer.**

Hanner Tymor y Sulgwyn

Bydd yr Ysgol ar gau ar gyfer Gwyliau Hanner Tymor y Sulgwyn o ddydd Llun Mai 30ain am 1 wythnos. Dylai'r disgyblion ddychwelyd i'r Ysgol ddydd Mawrth, Mehefin 7fed.

Clwb Gwyliau - Wythnos y Sulgwyn

Bydd yr Ysgol unwaith eto yn cynnig cyfleuster gofal plant yn ystod gwyliau i bob disgybl yn ystod Gwyliau'r Sulgwyn. Mae'r ffurflenni wedi'u dosbarthu ar Parentmail. Bydd y cyfleuster yn rhedeg o ddydd Llun hyd ddydd Mercher oherwydd fod Gwyliau'r Banc ddydd Iau a Gwener Mehefin 2il a'r 3ydd.

Gwyl y Banc - Jiwbilî

Yn lle Gwyl Banc ychwanegol ar Fehefin 3ydd i goffau Blwyddyn Jiwbilî'r Frenhines bydd yr Ysgol ar gau i'r holl ddisgyblion o'r Cylch Chwarae hyd at Flwyddyn 6 **ddydd Llun Mehefin 6ed. Bydd Blagur Haf (Creche) yn parhau ar agor.**

P.E. Sesiynau

Yn dilyn yr egwyl hanner tymor, bydd y sesiynau Addysg Gorfforol yn newid fel a ganlyn:-

DYDD LLUN

BLWYDDYN 6 - S BROWN

BLWYDDYN 4- E OWENS

BLWYDDYN 1 - D MICHAEL

DYDD MAWRTH

BLWYDDYN 4 - L ELLIS-ROBERTS

BLWYDDYN 6 - K JONES

DYDD MERCHER

BLWYDDYN 5 – K JONES

BLWYDDYN 3 – I JONES

BLWYDDYN 3 – M PARRY

DYDD IAU

DOSBARTH DERBYN – M HUGHES

DOSBARTH DERBYN - R ROBERTS

BLWYDDYN 2 – S PARRY

BLWYDDYN 5- N JONES

DYDD GWENER

BLWYDDYN 2 – L ROBERTS

BLWYDDYN 1 – C EDWARDS

Y FEITHRINFA A'R CYLCH CHWARAE

Mabolgampau

Mae'r diwrnodau Mabolgampau wedi'u trefnu fel a ganlyn:-

Cylch Chwarae, Y Feithrinfa a'r Dosbarthiadau Derbyn - Dydd Llun Mehefin 13eg 1.30

Blwyddyn 1, 2 a 3 - Dydd Llun Mehefin 20fed 1.30

Blynyddoedd 4, 5 a 6 - Dydd Llun Mehefin 27ain 1.30

Mae'r dyddiau hyn yn ddibynnol ar amodau tywydd. Os bydd angen gohirio oherwydd materion lechyd a Diogelwch yna bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn ystod y prynhawn sych nesaf.

Mae'n bleser gennym ddweud ein bod yn edrych ymlaen at groesawu teulu a ffrindiau ein disgyblion i wylïo'r digwyddiadau. Wedi cyfnod hir heb gynulleidfa, ni allwn aros i glywed eich bloeddiadau o anogaeth yn ystod y rasys.

Fel arfer, iechyd a diogelwch ein disgyblion yw ein blaenoriaeth o hyd, felly gofynnwn:

- fod unrhyw frodyr a chwiorydd iau sy'n dod gyda chi i wylïo yn cael eu cadw wrth eich ochr a'u goruchwylïo'n llawn bob amser.
- na ddisgwylir i unrhyw ddisgybl sy'n cael ei dynnu allan o'r dosbarth i wylïo y rasys yn cael ailymuno â'i ddosbarth eto - byddant yn cael eu harwyddo allan am weddill y sesiwn. Dylent gael eu goruchwylïo yn gyson gan yr oedolyn sydd wedi eu harwyddo allan.
- ichi aros ar ochr y 'rhiant' o'r cae – dim croesi i ymweld â'ch plentyn nac i fynd ag unrhyw ddiodydd/fyrbrydau iddo.

PC Andy Jackson

Yn dilyn gwylïau'r hanner tymor, bydd PC Andy Jackson o Heddlu Gogledd Cymru yn ôl yn yr ysgol yn ymweld â Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 i drafod sawl pwnc gan gynnwys Cadw'n Glyfar Ar-lein, Seiberfwlio, Bwlio a Diogelwch Ar-lein.

Adroddiad Absenoldeb

Os yw eich plentyn/plant yn absennol o'r Ysgol gwnewch yn siŵr eich bod yn ein hysbysu naill ai drwy ffonio a gadael neges neu drwy ddefnyddio'r gwasanaeth ar Ap/Gwefan Parentmail. Mae'n hynod bwysig eich bod yn gwneud hyn er mwyn osgoi unrhyw absenoldebau anawdurdodedig.

Gwisg Ysgol

Mae siwmperi ysgol, bagiau llyfrau darllen a bagiau Addysg Gorfforol yn parhau i fod ar gael i'w prynu drwy Parentmail. Mae eitemau eraill fel y crysau Addysg Gorfforol, blazers, sgortiau a pinafores ar gael i'w prynu ar www.brigade.uk.com

Dymunwn wylïau Hanner Tymor y Sulgwyn diogel, dymunol a heulog i chi.

Yr eiddoch yn gywir

Richard Williams

Cyfarwyddwr Gweithredol/Pennaeth